
Prosiect X

Llyfr Llafar
gyda
chôd QR

# TŴR Mr Sarrug




Damian Harvey

DRAKE

Korky Paul

# TŴR Mr Sarrug




Damian Harvey
Lluniau gan Korky Paul

Roedd Mr Sarrug yn byw yn y dre. Roedd e'n hoffi ei gartref ond doedd e ddim yn hoffi prysurdeb a mwstwr y dref. Roedd gormod o bobl. Roedd gormod o sŵn.



Roedd y ceffylau a’r ceirt yn clindarddach heibio ei ddrws ffrynt drwy’r dydd. Fedrai e ddim gweithio. Roedd hyn yn ei wneud yn sarrug iawn. “Byddwch ddistaw!” gwaeddodd Mr Sarrug.



Roedd pobl yn canu ar y strydoedd drwy'r nos. Gallai eu clywed yn chwyrnu yn eu gwelyau. Fedrai e ddim cysgu. Roedd hyn yn ei wneud yn flin iawn. "Byddwch ddistaw!" gwaeddodd Mr Sarrug.



Pan welai pobl ef, dywedent, “Gwyliwch! Dyma Mr Sarrug yn dod. Mae’n ddyn blin a phiwis iawn.”

Felly un diwrnod dyma Mr Sarrug yn dod i benderfyniad. Paciodd ei fagiau ac aeth i fyw yn y tŵr uchel ar ben y clogwyni.




Roedd y tŵr yn hen a thywyll ond roedd Mr Sarrug yn ei hoffi. Roedd e'n hoffi'r tawelwch. Roedd e'n hoffi'r ffordd roedd y grisiau'n troi a throelli i fyny i'r pen uchaf.

Ond yn well na'r cyfan hoffai Mr Sarrug y golygfeydd o'r ffenestri mawr crwn.



O’i dŵr, gallai Mr Sarrug edrych allan dros brysurdeb a mwstwr y dref.






O’i dŵr, gallai weld bryniau a choed y wlad.

Ond yn well na'r cyfan, gallai Mr Sarrug edrych allan i'r môr. Hoffai wylio'r cychod yn hwylio heibio. Roedd cychod tal, cychod hir, cychod padlo a chychod rhwyfo.



Ond doedd Mr Sarrug ddim yn hollol hapus. Doedd neb yn dod i ymweld ag ef. Edrychai'r tŵr yn dywyll ac arswydus. Roedd Mr Sarrug yn dal i edrych yn flin a phiwis. Pan fyddai Mr Sarrug yn chwifio, rhedai pobl i ffwrdd.



Dim ond gwylanod oedd yn ymweld ag ef, a dim ond creu llanast roedden nhw. Roedd Mr Sarrug yn treulio'r rhan fwyaf o'i amser yn glanhau'r tŵr. "Bant â chi!" gwaeddodd, yn chwifio'i ddwrn at yr adar.



Yn y nos edrychai'r tŵr yn dywyll ac arswydus iawn. Methai Mr Sarrug gysgu. Fedrai'r llongau a'r cychod ddim gweld y clogwyni. Roedden nhw'n taro yn eu herbyn. Cadwai'r ergydion Mr Sarrug ar ddi-hun.



Os âi i gysgu, câi ei ddihuno gan forwyr yn curo ar ei ddrws. Gofynnent am ddiodydd poeth a blancedi.


“Bant â chi!” gwaeddodd Mr Sarrug. Gorchuddiodd ei ben â chlustog.



Yn fuan, peidiodd y morwyr â chnocio. Nawr doedd neb yn dod i'w dŵr o gwbwl – dim ond y gwylanod brwnt. Roedd hyn yn gwneud Mr Sarrug yn flin a phiwis iawn.



Un diwrnod, edrychodd Mr Sarrug yn y drych. Gwgodd ar yr hyn welodd. “Dyna hen ddyn blin, piwis, blewog wyt ti,” dywedodd. “Mae’n amser am newid!”



Felly, trannoeth gwnaeth Mr Sarrug benderfyniad. Aeth i'r dref am ei eilliad a thoriad gwallt blynyddol.

"Dyna welliant," dywedodd Mr Sarrug a gwenodd wên fach.







Tu allan i siop y barbwr, cafodd syniad. Rhuthrodd i mewn i siop Bargeinion Berwyn. Prynodd baent. Pan gyrhaeddodd 'nôl i'w dŵr dechreuodd Mr Sarrug weithio.



Ffeindiodd Mr Sarrug frwsh paent. Paentiodd ei dŵr yn wyn o'r top i'r gwaelod. "Dyna fe," dywedodd Mr Sarrug. "Gall y gwylanod wneud cymaint o lanast ag y medran nhw nawr. Fydd neb yn sylwi!"

Yna paentiodd Mr Sarrug gylchoedd coch llachar o amgylch y tŵr. Roedd e am iddo edrych yn llon a chyfeillgar.






Nesa rhoddodd olau mawr ar ben y tŵr. Nawr medrai pawb ei weld – hyd yn oed yn y tywyllwch. “Fydd neb yn taro’r clogwyni nawr,” dywedodd Mr Sarrug yn hapus. “Ac fe gaf i beth cwsg.”


Doedd cartref Mr Sarrug ddim yn edrych fel tŵr tal, tywyll bellach. Roedd yn edrych fel tŷ tal, golau. Yn ystod y dydd deuai pobl i weld tŷ tal, golau Mr Sarrug. Pan fyddent yn ei weld, byddent yn gwenu. Gwenai Mr Sarrug yn ôl.



Yn y nos gwenai'r morwyr. Roedden nhw'n gweld y golau ar ben tŷ Mr Sarrug. Roedd yn eu rhybuddio bod clogwyni o'u blaenau.



Roedd Mr Sarrug yn hapus yn ei dŷ tal, golau. Peidiodd deimlo'n flin a phiwis. Dechreuodd pobl ei alw'n Mr Siriol! Gwnaeth hyn Mr Sarrug hyd yn oed yn fwy hapus.






Roedd goleudy tal Mr Sarrug yn boblogaidd iawn. Adeiladwyd llawer mwy o oleudai ar ben clogwyni dros y byd i gyd. Ydych chi wedi gweld un?



# Goleudai

- Mae goleudy fel tortsh anferth. Mae'r golau'n fflachio yn y nos. Mae'n gymorth i'r cychod ddod o hyd i'w llwybr a pheidio â tharo'r creigiau.
- Heddiw mae'r rhan fwyaf o gychod yn defnyddio cyfrifiaduron. Does dim angen goleudai arnynt.
- Mae llawer o'r goleudai'n amgueddfeydd ac atyniadau i ymwelwyr erbyn hyn. Mae rhai wedi eu troi'n gartrefi.

Hoffech chi fyw mewn goleudy?